------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y_Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2020

Amser y cyfarfod: 10.00

# 284(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Pontio Ewropeaidd)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 5 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

(60 munud)

## 6 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Janet Finch-Saunders(Aberconwy**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brofion Covid-19 wythnosol ar gyfer staff cartrefi gofal?

Gofyn i  Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

I'w ateb gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**Alun Davies (Blaenau Gwent)**:  A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymagwedd Llywodraeth Cymru at y polisi cyfryngau a chymorth i'r diwydiant cyfryngau yn dilyn y gyfres ddiweddar o ddiswyddiadau?

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân - TYNNWYD YN ÔL

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 - TYNNWYD YN ÔL

**NDM7349** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 - TYNNWYD YN ÔL

**NDM7350** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)

## 9 Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

**NDM7347** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2020.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

**NDM7348** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2020.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 11 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020

(15 munud)

**NDM7346** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio)

2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 12 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

(15 munud)

**NDM7357** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru).

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), heb ei ddiwygio ar ôl Cyfnod 3

**Dogfen Ategol**

Datganiad y Llywydd yn unol â Rheol Sefydlog 26.50A

## 13 Dadl: Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya yng Nghymru

(60 munud)

**NDM7355** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu adroddiad y Tasglu a gafodd ei gadeirio gan Phil Jones yn nodi argymhellion ynghylch sut i newid y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru i 20 milltir yr awr.

2. Yn nodi'r ymchwil rhyngwladol sy'n dangos y manteision o ran diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y marwolaethau ymhlith plant, yn sgil lleihau terfynau cyflymder diofyn i 20 milltir yr awr.

3. Yn cydnabod y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno prosiectau peilot ynghylch terfynau 20 milltir yr awr, cyn cyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20 milltir yr awr ar draws Cymru, a'r manteision a fydd yn deillio o hyn i gymunedau yn y dyfodol.

4. Yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i gychwyn ymgynghori ynghylch y bwriad i lunio gorchymyn drwy offeryn statudol (lle y bydd yn ofynnol derbyn cymeradwyaeth gan benderfyniad y Senedd) i leihau'r terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig i 20 milltir yr awr.

Anfonwyd adroddiad y Tasglu drwy e-bost at yr Aelodau ar 8 Gorffennaf 2020.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi ei chynigion fel rhan o'r ymgynghoriad i sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi yr adnoddau priodol i ymateb i'r gorchymyn arfaethedig.

## 14 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 18.10: Swyddogaethau Pwyllgor yn Ymwneud â Goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru

(5 munud)

**NDM7353 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 18, fel y nodir yn Atodiad A o adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 15 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Y Comisiwn Etholiadol a Phwyllgor y Llywydd

(5 munud)

**NDM7352 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Rheol Sefydlog 18B – Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno Rheol Sefydlog 18B newydd, a diwygio Rheol Sefydlog 17, fel y nodir yn Atodiad B o adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 16 Dadl y Pwyllgor Cyllid - Blaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22, yn sgil Covid 19

(60 munud)

**NDM7351** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn trafod y blaenoriaethau gwariant ar gyfer Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2021-22.

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 Nodyn Cryno Ymgysylltu Digidol, Mehefin 2020

## 17 Dadl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Effaith Covid-19 ar Blant a Phobl Ifanc

(60 munud)

**NDM7354** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad Interim y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf 2020.

## 18 Dadl Plaid Cymru - Cymru Annibynnol

(60 munud)

**NDM7356** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod pobl Cymru wedi croesawu'r gallu i Gymru weithredu'n annibynnol yn ystod yr argyfwng coronafeirws.

2. Yn cydnabod llwyddiant gwledydd annibynnol o faint tebyg i Gymru wrth ddelio gyda'r feirws.

3. Yn credu y byddai annibynniaeth yn rhoi mwy o hyblygrwydd a gwydnwch i Gymru wrth ymateb i heriau yn y dyfodol.

4. Yn nodi'r gefnogaeth gynyddol i Alban annibynnol ac Iwerddon unedig.

5. Yn cadarnhau hawl pobl Cymru i benderfynu a ddylai Cymru ddod yn wlad annibynnol.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio’r hawl gyfansoddiadol i ganiatau i’r Senedd ddeddfu yn ystod y tymor nesaf i gynnal refferendwm gyfrwymol ar annibynniaeth.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi datganoli i Gymru.

2. Yn cydnabod y manteision i Gymru o fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

3. Yn croesawu'r gefnogaeth sylweddol y mae Llywodraeth Ei Mawrhydi wedi'i rhoi i gynorthwyo gyda'r ymateb i'r pandemig coronafeirws yng Nghymru, gan gynnwys:

a) £2.8 biliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi ymyriadau mewn materion datganoledig;

b) cymorth ar gyfer mwy na 316,500 o swyddi drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws;

c) cymorth i fwy na 102,000 o bobl drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i’r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws;

d) cyllid brys ar gyfer y diwydiant dur;

e) Bonws Cadw Swyddi i annog cyflogwyr i ddiogelu swyddi gweithwyr sydd ar ffyrlo;

f) Cynllun Kickstart ar gyfer ceiswyr gwaith ifanc;

g) gostyngiad mewn TAW ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch;

h) Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan er mwyn cynorthwyo caffis, bwytai a thafarndai; ac

i) cyllid i ddatgarboneiddio adeiladau sector cyhoeddus Llywodraeth y DU yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gydweithredu â Llywodraeth Ei Mawrhydi i ddiogelu bywydau a bywoliaethau yng Nghymru yn ystod y pandemig coronafeirws.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3, a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2** – [Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn credu:

a) bod datganoli, drwy unrhyw fesur rhesymol, wedi methu; a

b) bod y gefnogaeth dros ddileu'r Senedd yn fwy na'r gefnogaeth dros annibyniaeth wleidyddol Cymru o'r DU.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliannau 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 3** – [Gareth Bennett (Canol De Cymru)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod y gwahanol bolisïau o ran cyfyngiadau symud a gyflwynwyd gan wahanol lywodraethau ledled y Deyrnas Unedig wedi arwain at ddryswch.

2. Yn cydnabod mai yr unig gwir wydnwch economaidd y mae Cymru yn ei fwynhau yw fel rhan o'r Deyrnas Unedig.

3. Yn nodi refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, a arweiniodd at yr Alban yn pleidleisio dros aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

4. Yn cadarnhau hawl pobl Cymru i benderfynu a yw Cymru'n parhau i fod â llywodraeth ddatganoledig.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio hawl gyfansoddiadol i ganiatáu i'r Senedd ddeddfu yn ystod y tymor nesaf i gynnal refferendwm rhwymol ynghylch a ydym yn cadw neu'n diddymu llywodraeth a senedd ddatganoledig Cymru.
*[Os derbynnir gwelliant 3, caiff gwelliant 4 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4** – [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu arweinyddiaeth gref ac effeithiol Llywodraeth Cymru yn ystod pandemig COVID-19;

2. Yn ystyried mai penderfyniadau a negeseuon ar y cyd gan bedair gweinyddiaeth y Deyrnas Unedig fydd y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â heriau'r pandemig i'n dinasyddion a'n busnesau; a

3. Yn credu mai'r ffordd orau o gynnal buddiannau Cymru yw drwy barhau i fod yn aelod o Deyrnas Unedig ddiwygiedig, gan alluogi llywodraethau i weithredu mewn modd cydgysylltiedig.

**Gwelliant 5 – Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid cael gwared ar y Senedd.

**Gwelliant 6 – Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio hawl gyfansoddiadol i ganiatáu i'r Senedd ddeddfu yn ystod y tymor nesaf i gynnal refferendwm rhwymol ar ei datsefydlu.

**Gwelliant 7 – Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Cymru gael ei chyfansoddiad a'i deddf hawliau ei hun.

**Gwelliant 8 – Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid arfer sofraniaeth Cymru ar lefel gymunedol a chenedlaethol, gan gynnwys defnyddio refferenda rhwymol drwy hawl y cyhoedd i gynnig.

## 19 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 11.00, Dydd Mercher, 5 Awst 2020.
Adalw'r Senedd  o dan Rheol Sefydlog 34.9 yw'r cyfarfod hwn.

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 10/07/2020 i'w hateb ar 15/07/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Hefin David** *Caerffili*

1 OQ55478

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ailagor y sector busnesau bach yng Nghymru yn raddol yn dilyn y cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

2 OQ55449

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i chwaraeon proffesiynol?

**Carwyn Jones** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

3 OQ55469

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i fusnesau yng Nghymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ55455

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o bwysigrwydd gorsafoedd radio lleol yng Nghymru?

**David Rees** *Aberafan*

5 OQ55476

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

6 OQ55444

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Gyfamod y Lluoedd Arfog?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**7** OQ55477

**(e)**

Pa asesiad sydd wedi'i wneud o sut y mae'r cyfyngiadau yn y gwasanaeth iechyd, a roddwyd ar waith i atal y pandemig, wedi effeithio ar y rhai y mae angen y GIG arnynt am resymau nad ydynt yn ymwneud â Covid-19?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**8** OQ55474

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i gynghorau tref a chymuned yn ystod y pandemig?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**9** OQ55470

**(e)**

A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i newid ei pholisïau profi, olrhain a diogelu yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch trosglwyddo'r feirws SARS-CoV-2?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**10** OQ55463

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi rhyddid crefydd yng Ngogledd Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

**11** OQ55472

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddioddefwyr cam-drin domestig y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn tynnu eu plant oddi arnynt?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**12** OQ55475

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r swm ychwanegol o arian y bydd Cymru yn ei gael o ganlyniad i ddatganiad yr haf Canghellor y DU?

## Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ55468

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau i'r M4 o amgylch ardal Twneli Brynglas yn y dyfodol?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ55451

**(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i brentisiaid a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu seiliedig ar waith, yn sgil yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar eu lleoliadau?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

3 OQ55446

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau yng Ngogledd Cymru i ailagor o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

4 OQ55465

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch staff ar drafnidiaeth gyhoeddus?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ55452

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu metro Bae Abertawe a chymoedd y gorllewin?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

6 OQ55440

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i liniaru tagfeydd ar ffyrdd a rheilffyrdd ym Mhencoed?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

7 OQ55442

**(e)**

Yng ngoleuni Covid-19, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith canllawiau ymbellhau cymdeithasol ar fusnesau yng Nghanol De Cymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

8 OQ55448

**(e)**

Pa fesurau sy'n cael eu cymryd i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn ystod y pandemig coronafeirws?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**9** OQ55458

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r goblygiadau i economi Cymoedd y De yn sgil diweddariad economaidd yr haf Canghellor y DU?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**10** OQ55457

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella cysylltiadau trafnidiaeth ag ysbyty newydd Ysbyty Prifysgol Grange pan fydd yn agor ym mis Tachwedd 2020?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**11** OQ55461

**(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cynnydd mewn teithiau traffig ar y ffyrdd wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu codi?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**12** OQ55445

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau yn y sector lletygarwch yng Nghymru?

# Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**1** OQ55462

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gydag aelodau o Lywodraeth y DU ynghylch Brexit ers i'w deitl gael ei newid ar 4 Mawrth 2020?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**2** OQ55467

**(w)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi'r gwaith o adfer trefi Cymru yn sgil effaith Covid-19?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**3** OQ55460

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i Ailgodi'n Gryfach yn ystod ac ar ôl Covid-19?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**4** OQ55443

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o nifer y swyddi a busnesau a gaiff eu colli yng Nghymru oherwydd yr argyfwng coronafeirws?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

**5** OQ55441

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Gweinidogion y DU ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**6** OQ55459

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Cydbwyllgor y Gweinidogion ar negodiadau Ewropeaidd?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**7** OQ55456

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**8** OQ55447

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau y bydd pobl a nwyddau yn symud yn effeithlon ym mhorthladdoedd Cymru unwaith y daw'r cyfnod pontio Brexit i ben?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**9** OQ55450

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu effaith masnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd ar delerau Sefydliad Masnach y Byd, ar Gymru?

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 15 Medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud) - Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)

**Dydd Mercher 16 medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- Cynnig i sefydlu pwyllgor o dan Reol Sefydlog 16.3: Pwyllgor y Llywydd (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Budd-daliadau yng Nghymru - opsiynau i'w cyflawni'n well (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)
- Dadl Fer: David Melding (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 22 Medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol" (30 munud)
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 (15 munud)

**Dydd Mercher 23 Medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (45 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestynau i Gomiswn y Senedd (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 29 Medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (15 munud)
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (15 mins)

**Dydd Mercher 30 Medi 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Senedd**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (60 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Rhun ap Iorweth (Ynys Môn) (30 munud)